# Canagliflozin, dapagliflozin ac empagliflozin fel monotherapïau a roddir i drin diabetes math 2

Mai 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Canagliflozin (Invokana) neu dapagliflozin (Forxiga) neu empagliflozin (Jardiance), ar eu pen eu hunain fel triniaeth ar gyfer diabetes math 2 os yw'r canlynol yn berthnasol:

- ni ellir rheoli lefelau glwcos yn y gwaed drwy ddeiet ac ymarfer corff yn unig
- ni allwch gymryd cyffuriau o'r enw metformin
- mae eich meddyg o'r farn nad cyffuriau o'r enw pioglitazone, neu fath o gyffur o'r enw sulfonylureas, yw'r driniaeth gywir
- math o gyffur o'r enw atalyddion DPP 4 yw'r unig ddewis priodol arall o driniaeth.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych ddiabetes math 2 a bod eich meddyg yn credu mai monotherapi gyda canagliflozin, dapagliflozin neu empagliflozin yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai canagliflozin, dapagliflozin ac empagliflozin fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd canagliflozin, dapagliflozin neu empagliflozin nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd canagliflozin, dapagliflozin ac empagliflozin oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau eu costau i'r rheini na allant gymryd metformin, a phan nad pioglitazone neu sulfonylureas yw'r driniaeth gywir.

## Y cyflwr a'r triniaethau

Gyda diabetes ceir gormod o glwcos (siwgr) yn y gwaed, a gall hyn arwain at broblemau iechyd difrifol. Hormon a gynhyrchir gan y corff yw inswlin sy'n rheoli lefel y siwgr yn y gwaed. Mae diabetes math 2 yn digwydd pan na all y corff gynhyrchu digon o inswlin, neu pan na all ddefnyddio'r inswlin a gynhyrchir yn gywir.

Mae canagliflozin, dapagliflozin ac empagliflozin yn gweithio drwy rwystro'r arennau rhag ail-amsugno'r siwgr yn y gwaed, gan gynyddu faint o siwgr a waredir o'r corff yn yr wrin. Mae hyn yn lleihau lefel y siwgr yn y gwaed.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Diabetes UK, 0345 123 2399
- Sefydliad Ymchwil ac Iechyd Diabetes, 0239 263 7808
- BEMDA (Cymdeithas Diabetes Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig), 0207 723 5357
- Surya Foundation, 0208 398 9292
- Independent Diabetes Trust, 0160 462 2837

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1921-5